Cilsarn

Dere gyda mi am dro
Glannau gwyrddlas fydd ein bro
Aros wrth fy ochor nawr
Yng nghaeau gwyrdd Cilsarn.

Aros eiliad gyda mi
Gad i'm weld dy wyneb di
Rho im' wen a dal fy llaw
Yng nghaeau gwyrdd Cilsarn

Maddau i mi'r trydydd tro
Maddau 'mi am fynd o'm co'
Dere 'da fi unwaith 'to
I gaeau gwyrdd Cilsarn

Sŵn y tonau yn y brwyn
Sŵn y gwenyn yn y llwyn
Sŵn dy sibrwd melys mwyn
Yng nghaeau gwyrdd Cilsarn

© Geraint Griffiths 2005